# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS TAI

**DYDD** Iau, 18 Mawrth 2021

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** L.D. Evans (Aelod o’r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel
S.E. Watts, Rheolwr Diogelu’r Amgylchedd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod
- 9.00 - 9.15 yb

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 2. LOFNODI BOD COFNOD PENDERFYNIADAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 23AIN GORFFENNAF, 2020 YN GOFNOD CYWIR

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2020 yn gofnod cywir.**

## 3. PENNU RHENTI AR GYFER SAFLE SIPSIWN/TEITHWYR PEN-Y-BRYN 2021/22

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad i gadarnhau'r cynnydd yn y rhenti wythnosol ar gyfer safle Sipsiwn/Teithwyr Pen-y-bryn yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22. Hysbyswyd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod y safle Sipsiwn a Theithwyr yn wasanaeth a gyllidir gan y Dreth Gyngor a bod 15 llain ar safle Pen-y-bryn ar hyn o bryd. Er bod yr holl Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai yng Nghymru yn gweithredu yn unol â'r polisi rhenti tai cymdeithasol mewn perthynas â lefelau rhenti tai cymdeithasol, nid oedd safle Pen-y-bryn yn rhan o'r Cyfrif Refeniw Tai, ac felly nid oedd y rhenti'n cael eu rheoli gan bolisi rhenti Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, bernid ei bod yn deg ac yn gyfiawn bod y rhenti'n cynyddu drwy ddefnyddio'r un fformiwla â thenantiaid y Cyngor. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, byddai hynny'n gynnydd o 1.5% (cyfradd CPI ym mis Medi 2020) ac argymhellwyd y dylid pennu'r lefelau rhenti wythnosol ar gyfer 2021/22 ar £57.06 (taliadau net am wasanaethau a threthi dŵr) gan ddarparu incwm blynyddol o £41,083.20 ar gyfer 2021/22, pe bai pob un o'r 15 llain yn cael eu meddiannu drwy gydol y flwyddyn.

Gwnaeth yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol gwestiynau'r elfen tâl am wasanaethau yn yr adroddiad a rhoddwyd eglurhad gan y swyddog ei bod yn cael ei chymhwyso ar yr un sail â chanolfannau tai gwarchod y Cyngor.

**PENDERFYNWYD:**

**3.1 pennu mai £57.06 fyddai'r rhent wythnosol am leiniau ar Safle Sipsiwn/Teithwyr Pen-y-bryn, wedi'i gasglu dros 48 wythnos.**

**3.2** **bod y polisi ynghylch taliadau am wasanaethau yn cael ei weithredu i sicrhau bod tenantiaid y safle yn gyda thâl am y gwasanaethau ychwanegol hynny.**

**3.3** **pennu mai £21.15 yw'r tâl am ddefnyddio dŵr, wedi'i gasglu dros 48 wythnos.**

**3.4** **awdurdodi swyddogion i ymgynghori â phreswylwyr Pen-y-bryn a phennu'r taliadau cyffredinol a nodir yn nhabl 1.**

___________________________________ ____________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**